



CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB

Maer: Cyng Chris Jones

Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, CHWEFROR YR 22^{ain} 2023

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
Yn bresennol: Aelodau Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror yr 8^{fed} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth am Wasanaethau Cynaliadwy CBSC – tai bach cyhoeddus
7. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo manylion Chwarae Allan ar gyfer Haf 2023
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo adborth ffurfiol ynghylch ymgynghoriad cyn-cynllunio Castle Green
9. Trefnu'r digwyddiad lansio ar gyfer prosiect Gwella Glan y Môr Elias am 10yb ar ddydd Sul, Mai'r 19^{eg}
10. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Chwefror 2023

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom

<https://us02web.zoom.us/j/89897048362?pwd=amVRSTFIWTRmRnF6bjBWSzR6Rkdldz09>

Rhif Adnabod y Cyfrinair: 898 9704 8362

Cyfrinair: 765735

Taliadau i'w cyflwyno
1. Cais am Arian Parod £50.00
2. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS Mawrth £21.00
3. Menter Iaith cyfieithiadau tandaliad ar anfoneb flaenorol – manylion ynghlwm I'w drafod
4. Llogi Neuadd Gymunedol y Dref ar gyfer marchnad Chwefror £120.00
5. British Gas Ardal Gemau Aml-ddedfnydd £51.08
6. A137 taliad grant Gefeillio Trefi £2000.00
Taliadau ôl-ddyddiedig
1. Antur Waenfawr rhwygo papur yn fân £14.40

11. Trafod materion cynllunio

0/50419

Y Warws, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL33 0AA

12. Derbyn gohebiaeth

1. Derbyniwyd llythyr am y meinciau coffa
2. Gofynion ar gyfer adroddiad Bioamrywiaeth y Cyngor Tref

- 13. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd**
1. Cyfarfod y Llyfrgell Gymunedol 13/02/2023
 2. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 15/02/2023
- 14. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys**



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer: Cyng Chris Jones Dirprwy Faer: Cyng Laura Fielding

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF AR DDYDD MERCHER,
CHWEFROR YR 22^{ain} 2023**

Oherwydd salwch staff, fe gynhaliwyd y cyfarfod hwn dros ZOOM

Presennol: Cadeirydd: Maer Chris Jones; Cyng Sir Penny Andow; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg; Clerc y Dref Jayne Neal

- 15. Croesawu pawb i'r cyfarfod ac fe dderbyniwyd ymddiheuriadau am newid y cyfarfod i fod ar ZOOM ar fyr rybudd**
- 16. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12) Dirprwy Faer Laura Fielding; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Gareth Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Pat Griffiths**
Penderfynwyd derbyn a nodi
- 17. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Datgelu diddordeb personol, neu ragfarnol) Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau**

Penderfynwyd derbyn a nodi

18. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

1. Yn ymweld: Aelodau o Glwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan: Dewi Roberts Trysorydd, Rhys Griffiths Cadeirydd, Estynnwyd diolch am yr holl gymorth ariannol a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Llanfairfechan ac fe roddwyd cyflwyniad ynghylch llwyddiannau diweddar a'r cynlluniau sydd ar waith. Canolbwyntio ar leihau difrod yn sgil fandaliaeth yn y tymor byr. Mae'r grantiau CCTV wedi cynorthwyo gyda hyn, ac mae gwelliannau megis caeadau ar gyfer y caban paned wedi'u cynllunio. Mae'n waith hollbwysig gan fod llawer o arian yn cael ei wastraffu ar waith adfer yn sgil difrod troseddol. Mae'r clwb yn awyddus i gydweithio er mwyn gwella'r ardal leol, y Cae Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) er enghraifft. O ganlyniad byddai modd cynnal gweithgareddau cymunedol megis pêl-droed i blant a phêl-droed cerdded, gan sicrhau modd i gydweithio gyda rhagor o drigolion y gymuned o bob oedran. Maen nhw'n awyddus i greu caeau chwarae a phrydlesu cyrtiau tenis yn y dyfodol. Mae problemau gyda choed heintiedig y mae angen cael gwared arnyn nhw ond dydyn nhw ddim ar dir y clwb, felly byddai'n rhaid cyflawni'r gwaith ar y cyd â Chyngor Conwy a'r Cyngor Tref. Does dim mynediad i bobl anabl a does dim grantiau ar gael i fynd i'r afael â hyn gan nad oes prydles ar y cae pêl-droed. Fe rannwyd syniadau ynghylch sut i wella'r ardal yn ei chyfanrwydd fel rhan o brosiect partneriaeth, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y tir o amgylch y Cae Gemau Aml-ddefnydd. At hyn, pe bai cynlluniau i wella'r cyfleusterau yn y clwb megis mannau storio diogel yn cael eu cyflawni, yna gallai clybiau chwaraeon eraill fynd ati i rannu'r cyfleusterau e.e., grwpiau ffitrwydd ac ati. Mae'n rhaid sicrhau bod prydles ddichonol yn flaenoriaeth gan edrych tua'r dyfodol a gofynnwyd i'r Cyngor Tref am gefnogi'r cais hwn. Gallai hyn fod yn sbardun ar gyfer ennyn llawer mwy o bobl i gadw'n heini ac mae'r clwb pêl-droed yn awyddus i gefnogi hyn. Byddai sicrhau cyfleusterau a diogelwch priodol yn fodd o reoli a thargedu'r ardal yn fwy effeithiol er mwyn cynnig ystod eang o weithgareddau llesiant. Byddai cael pêl-droed caeedig yn sicrhau bod y clwb yn fwy cynaliadwy drwy dderbynebau giât a bydd modd i'r clwb ragori ymhellach.

Bu i'r Cadeirydd sicrhau, er mai CBS Conwy a'r Clwb Pêl-droed fyddai'n gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch y brydles, gallai'r Cyngor Tref gefnogi'r broses heb os. Gallai'r Cyngor Tref fod yn rhan fwy uniongyrchol o'r gwaith drwy gais ar y cyd ar gyfer cyllid grantiau cam 2 y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU fyddai ar gael ym mis Ebrill. O ganlyniad, gellir bwrw iddi i adfer y Cae Gemau Aml-ddefnydd a'r llain wyrdd yn y canol ar y cyd â CBS Conwy.

Sylw 1 – Soniodd y cyn-gynghorydd Sir, Bryn, fod oedi wedi bod gydag ymdrechion blaenorol i ennill prydles yn sgil gwrthwynebiadau gan breswylwyr nad oedd eisiau man penodol i'r clwb pêl-droed. Fodd bynnag, dywedodd y dylai'r Cyngor Tref gefnogi'r syniad o brydles a hynny gan fod cynsail yn yr ardal gan fod y clwb bowllo yn meddu ar brydles. Bu i'r clwb bowllo wrthwynebu'r syniad o osod goliau sefydlog ar gyfer y cyhoedd ar y llain wyrdd ger y Cae Gemau Aml-ddefnydd oherwydd eu bod yn bryderus y byddai'r peli yn cyrraedd y clwb bowllo – byddai'n bwysig gosod ffens uchel i atal hyn rhag digwydd. Soniwyd y byddai rheoli'r cae a'r tir o'i gwmpas yn ddatblygiad cadarnhaol.

Sylw 2 Soniodd y Cynghorydd Sir cyfredol Pandy bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r tîm cyfreithiol eisoes. Mae CBSC yn fwy na pharod i fwrw iddi i drin a thrafod y mater. Bydd angen cynllun busnes 5 llynedd arnyn nhw, prydles am 99 mlynedd gyda manylion am y goblygiadau i'r brydles pe bai'r clwb pêl-droed yn mynd i'r wal a thystiolaeth o lywodraethu da. Gallai fod yn broses gymharol rwydd ond mae'n broses cyfreithiol felly mae'n rhaid i bopeth fod yn hollgynhwysol cyn mynd ati i'w lunio. Mae'r holl agweddau'n gadarnhaol dros ben gan fod y pwyllgor cyfredol wedi hyrwyddo'u hunain yn y gymuned ac wedi cyflawni gwaith arbennig wrth ddatblygu gweithgareddau felly byddai'n wych pe bai'r cynllun yn llwyddo.

Sylw 3 Gallai'r Cyngor Tref gynnwys gweithgareddau'r clwb pêl-droed yn yr amserlen gymunedol sydd wedi'i llunio eisoes ar gyfer Neuadd y Dref a'r Llyfrgell? Mae'r broses recriwtio datblygwyr clwb Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar waith ar hyn o bryd a'r gobaith ydy y byddai'r clwb yn cydweithio gyda'r datblygwr clwb. Mae'r clwb pêl-droed yn ymwybodol o hyn a gallai fod yn help mawr – mae'r cynrychiolwyr wedi mynychu Sioe Deithiol pêl-droed Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Sylw 4 Gwybodaeth ychwanegol am y llwybr ceffyl ger pen pellaf y cae. Conwy sy'n berchen arno felly byddai'n rhaid sicrhau bod unrhyw waith ar y tir hwnnw yn cael ei gyflawni ar y cyd â nhw.

Sylw 5 Gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cam 2 fod yn gyfle gwych i gydweithio. Clerc i gadw mewn cysylltiad gyda'r clwb wrth inni dderbyn rhagor o fanylion. Estynnwyd diolch i bwyllgor y clwb am ddod ac am eu cyflwyniad.

2 Ymholiad gan breswilydd ynghylch cais cyn-cynllunio'r [prosiect Castle Green](#). Cytunwyd trafod Eitem 8 ar yr Agenda yn gynharach i'w drafod tra bod y preswilydd yn bresennol. Mae'r Cyngor Tref wedi trafod y mater yn flaenorol ac mae'r holl wybodaeth yn y cofnodion o Chwefror yr 8fed. Materion a drafodwyd a'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu fel a ganlyn:

1. Tai fforddiadwy : Cafodd y safle ei neilltuo ynghlwm â'r Cynllun Datblygu Lleol blaenorol a fabwysiadwyd yn 2017. Mae Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ond fe gafodd y safle hwn ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol a gytunwyd yn flaenorol. Bydd y tîm strategaeth tai ynghlwm â'r broses er mwyn sicrhau bod yna dai fforddiadwy. Os byddan nhw'n gofyn am unedau tai cymdeithasol ar y safle, byddai hyn yn unol â'r dosraniadau. Byddai'r unedau sydd ar werth neu i'w rhentu yn cael eu hysbysebu drwy [Tai Teg](#) – bydd yn rhaid cyflawni proses ymgeisio er mwyn sicrhau ei fod yn decach i'r bobl leol allu manteisio ar y tai hyn. Does dim polisiâu cynllunio ar waith gan Gyngor Conwy ar hyn o bryd i gyfyngu ail gartrefi neu air B&B's. Mae LIC wedi rhoi hawl cyfreithiol i awdurdodau lleol ddatblygu polisiâu i gyfyngu hyn ac mae Conwy a Gwynedd wrthi'n dwyn hyn i ystyriaeth ar hyn o bryd.
2. Maint yr ardal a'r nifer o dai. Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Gyngorau Tref eraill ond wrth chwilio ar y we, dengys bod cyfyngiad o oddeutu 96 tŷ ar lain 5 erw o dir. Mae'r safle hwn yn 6.48 erw ac mae 55 o dai wedi'u cynllunio ar gyfer y safle felly mae hyn ymhell o fewn y disgwyliadau.
3. Coed yn yr ardal – nodwyd na fyddai'r coed yn y cae yn cael eu torri. Nodwyd hefyd bod cyfran weddol o'r ardal heb ei neilltuo ar gyfer adeiladu tai arno.
4. Pryderon ynghylch y pwysau ar fynediad Ffordd Penmaenmawr
5. Datganiad Eco ynghylch y prosiect tai ynni goddefol. Soniodd CBS Conwy nad ydy'r polisiâu cynllunio yn ymdrin â hyn yn ddigon trylwyr. Fodd bynnag, byddan nhw'n disgwyl i unrhyw ddatblygiad fodloni'r safon [Passivhaus](#) . Gan fwrw golwg ar wefan Castle Green, mae pob un o'u tai yn bodloni'r gofyn hwn. Yn y datganiad gan y Cyngor Tref, gallwn ddewis i gyflwyno gofynion mwy cadarn a gofyn am dai carbon sero.
6. Yr Iaith Gymraeg – dywedodd Conwy eu bod wedi mynd i'r afael â hyn yn y Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r [dogfennau](#) yn dangos peth gwaith ynghylch hyn. Soniodd y Cyngor Tref am Fenter Iaith fel cyswllt yn flaenorol a gellir ychwanegu hyn at y datganiad.

7. Ymholiad ynghylch yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb – Clerc methu ag ateb hyn ond mae'n bosibl fod modd dod o hyd i'r ateb yn y [ddogfen Cynllun Datblygu Lleol](#)
8. Adroddiad seilwaith – Meddygon Teulu, Ysgolion ac ati. Bydd CBS Conwy yn argymhell cynnal trafodaethau gyda darparwyr iechedd ac addysg a dwyn i ystyriaeth y mater.
9. Ymholiad newydd ynghylch yr effaith ar natur – yr effaith ar ylfinirod a'r pïod y môr ar y safle. Mae manylion helaeth am fioamrywiaeth yn y ddogfen.

Mae hwn yn ymgynghoriad cyn-cynllunio, felly mae'r Cyngor Tref wrthi'n llunio datganiad yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu er mwyn cynrychioli'r gymuned. Fodd bynnag, caiff unrhyw breswilydd sy'n cyflwyno ymholiad eu hannog i ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad hefyd.

1. Ymateb preswilydd – cytuno bod angen tai fforddiadwy ond dydy unrhyw ddy sydd dros £200mil yn y pentref ddim yn gwerthu'n gyflym gan na allai pobl eu fforddio. Gellir bwrw golwg ar gynllun tebyg [yma](#): Mae 45 tŷ yma na allai unrhyw un yn y pentref eu fforddio. Does dim posibl i'r bobl hynny rydym yn ceisio'u helpu allu fforddio unrhyw beth gan y cwmni hwn. A ddylen ni fod yn cefnogi hyn? Byddai'n well adeiladu 100 o dai y gallai pobl eu fforddio. Pwy allai fforddio tŷ o'r fath? Fe ddylen nhw adeiladu tai gofynnol yn hytrach na thai y gallan nhw wneud elw arnyn nhw. Dydy hyn ddim yn ffordd o gefnogi'r gymuned, nid yw Llanfairfechan yn elwa o hyn. Pam na ellir defnyddio'r safleoedd brown ar gyfer The Heath er enghraifft.
2. Gallai'r Cyngor Tref ond cyflwyno sylwadau a byddan nhw'n llunio datganiad. Soniwyd bod prinder o dai o safon sy'n effeithlon o ran ynni. Cytunwyd nad ydym yn fodlon gyda thai o'r fath am £300,000 ond dyma fyddai'r tai eco modern o'r fath yn y pentref. Ni fyddai'n hawdd datblygu adeilad The Heath
3. Ymateb gan Gynghorydd Sir Pandy y gallai unrhyw adeiladwr gyflawni'r gwaith – mae CBS Conwy yn ymwybodol bod angen dirfawr am dai. Mae costau adeiladu yn uchel dros ben. Yr oll gallwn ni ei wneud ydy sicrhau ein bod yn cydweithio gyda'r preswylwyr a'r Cynghorau Tref. Rydym yn deall ei fod yn rhwystredig ond mae'n anodd iawn rhoi gwybod i'r adeiladwr.
4. Soniwyd bod pobl leol wedi prynu tai ar ystadau eraill yng Nghyffordd Llandudno felly ni ddylid tybio na fyddai preswylwyr Llanfairfechan yn awyddus i brynu'r tai hyn.
5. Soniodd y Clerc bod y tai dwy ystafell wely yn cychwyn am £185,000 a'r tai 3 ystafell wely yn oddeutu £250,00 – hoffai'r Cyngor Tref gynnwys sylwadau am y prisiau? Mae yna dai mwy ar y llain o dir ond bydd y mwyafrif o'r tai yn rai 2 a 3 ystafell wely. Cynnwys sylwadau gan y preswilydd am y prisiau yn y datganiad.
6. Mae angen ymateb erbyn Mawrth y 1af – Bydd y Clerc yn llunio datganiad cychwynol i'r Cyngor Tref ei ddwyn i ystyriaeth ac yna fe allwn lunio copi terfynol dros e-bost.
7. Wnaethon ni dderbyn unrhyw adborth yn y farchnad ar ddydd Sul? Wnaethon ni ond derbyn ychydig iawn o adborth a dweud y gwir ac fe roedd y rhan helaeth o'r trafodaethau rhwng aelodau'r tîm partneriaeth. Mae'r sylwadau ar Facebook wedi bod yn debyg iawn i'n trafodaethau felly mae'n ymddangos y bydd yn ein gwbybodaeth yn ymdrin ag ymholiadau preswylwyr.
8. Soniwyd gallai meini prawf Tai Teg fod yn llym a gallai ymwneud â chyswllt lleol. Mae problem gyda'r 44 tŷ sydd heb eu crybwyll yn y tai fforddiadwy. Mae'r diffyg manylion am gysylltiad lleol yn y ddeddf gynllunio'n peri gofid ond gallwn grybwyll hyn yn ein datganiad. Fe ddylen ni barhau i sicrhau bod 11 tŷ fforddiadwy i fodloni'r gyfran o 20%.
9. Dydy'r adran briffyrdd heb ymateb ynghylch unrhyw bryderon am yr effeithiau. Byddai'r ffordd mynediad tua phen pellaf Ffordd Penmaenmawr felly ni fyddai'n effeithio'r ysgol a'r Feddygfa cymaint â hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn effeithio mwy ar y cylchfan.
10. Bydd Beech Homes yn bwrw golwg ar y cynnydd yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig felly mae'n bwysig ein bod ni'n ymateb yn eglur.

Gallwn fwrw iddi i lunio datganiad cadarn yn sgil y trafodaethau hyd yn hyn. Mae pryderon ynghylch faint yn union o rym sydd gennym ni ynghlwm â marchnad tai agored y DU. [Penderfynwyd](#)

[derbyn a nodi](#)

19. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror yr 8^{fed} 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12) Doedd dim Rhestr Weithredu ar gael gan ein bod ni wedi ystyried rhestr weithredu Chwefror eisoes yn y cyfarfod diwethaf. Dim materion yn codi o'r cofnodion.

[Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff](#) [Eiliwyd gan y Cyng E Owen](#)

[Yn Unfrydol](#)

[Penderfynwyd derbyn](#)

[a nodi](#)

20. Derbyn gwybodaeth am Wasanaethau Cynaliadwy CBSC – tai bach cyhoeddus

Bu i'r Cynghorydd Sir adrodd am gyfarfod safle. Mai tai bach Ffordd yr Orsaf wedi cau ers rhai misoedd yn sgil difrod a phroblemau cynnal a chadw. Mae angen cyflawni gwaith sylweddol er mwyn bodloni'r gofynion iechedd a

diogelwch. Pryderon ynghylch system talu i ddefnyddio'r tŷ bach. Caiff achos busnes ei baratoi er mwyn ystyried a gaiff y gwaith hwn ei gyflawni ai pheidio. Fodd bynnag, ni fydd modd i CBS Conwy lanhau a chynnal a chadw'r eiddo o hyn ymlaen a bydd gofyn i'r Cyngor Tref benderfynu a fyddan nhw'n cymryd yr awenau dros y cyfleuster neu'n ei gau. Bydd yr adeilad wedi'i orchuddio gan ddarnau pren – dengys profiad blaenorol na fyddai adfer fel adeilad gwag yn effeithiol oherwydd y bygythiad o fandaliaeth. Byddan nhw'n cysylltu gyda'r holl Gynghorau Tref ynghylch y tai bach cyhoeddus a chynigir trosglwyddo asedau iddyn nhw. Unwaith y bydd yr holl wybodaeth ei chasglu, caiff ei ddosbarthu ac yna'r Cyngor Tref fydd yn penderfynu beth i'w wneud.

Penderfynwyd derbyn a nodi

21. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo'r manylion Chwarae Allan ar gyfer Haf 2023

Rydym wedi derbyn yr wybodaeth – bydd costio £850 yn haf 2023. Mae'r tîm yn awyddus i wybod lle hoffai'r Cyngor Tref iddyn nhw gynnal y sesiynau? Cytunwyd yn flaenorol y byddai Gerddi Fictoria yn fwy priodol gan y byddai'n fan addas i fwy o'r preswylwyr. Parc Pendalar – mae sesiynau wedi'u rhoi ar brawf ond nid oes llawer o bobl yn eu mynychu. Mae'n debyg y byddai Ffordd y Dyffryn yn rhy bell i breswylwyr Pendalar. Cytunwyd y dylid parhau i gynnal y sesiynau yng Ngerddi Fictoria gan ei fod yn fwy cyfleus ar gyfer y rhan helaeth o bobl. Bydd y sesiwn ar ddydd Gwener am 5 wythnos.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng P Andow Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

22. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo adborth ffurfiol i ymgynghoriad cyn-cynllunio Castle Green – wedi'i symud i'w drafod yn gynharach ar yr agenda eisoes.

23. Trefnu'r digwyddiad lansio ar gyfer prosiect Gwella Glan y Môr Elias am 10yb ar ddydd Sul, Mai'r 19^{eg}

Mae'r gwaith yn mynd rhagddi'n dda, mae disgwyl y bydd yr holl eitemau wedi'u cwblhau erbyn wythnos gyntaf mis Mawrth. Byddwn yn estyn diolch i bawb ynghlwm, yn enwedig swyddogion Conwy, Haf Jones a Lesley Lawson. Cynhaliwyd ymweliad safle gyda swyddog prosiect Carneddau, ac roedden nhw'n gadarnhaol dros ben ynghylch y gwaith prosiect sydd ar waith yn Llanfairfechan. Mae croeso i bawb ymuno gyda ni yn y lansiad ac fe gaiff gwahoddiadau eu hanfon at deuluoedd sy'n berchen ar y placiau teuluoedd. Mae'r meinciau cob yn llawn erbyn hyn felly bydd yn rhaid gosod unrhyw blaciau yn y dyfodol ar Lan y Môr Elias gyda chaniatâd gan Gyngor Conwy neu ar feinciau'r briffordd. Penderfynwyd derbyn a nodi

24. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Chwefror 2023

Taliadau i'w cyflwyno	
7. Cais am Arian Parod	£50.00
8. Kirsty Merrell Daily Trwydded TENS ar gyfer mis Mawrth	£21.00
9. Menter Iaith cyfieithiadau, tandaliad am anfoneb flaenorol	£300.00 gwybodaeth ynghlwm i'w thrafod
10. Neuadd Gymunedol y Dref, Llogi'r Neuadd ar gyfer farchnad Chwefror	£120.00
11. British Gas Cae Gemau Aml-ddefnydd (MUGA)	£51.08
12. A137 taliad grant Gefeillio Trefi	£2000.00
Taliadau ôl-ddyddiedig	
2. Antur Waenfawr rhwygo papur yn fân	£14.40

Ymholiad ynghylch Menter Iaith wedi'i egluro isod:

Llanfairfechan Town Council

Outstanding payments	Date	Number	Total	Payments made
Cyfieithu agenda Medi'r 1af a Chofnodion Cyfarfod Arbennig / Translation of September 1st Agenda and Minutes of Extraordinary Meeting Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 1303 gair / words	06/09/2021	3657	£93.82	09/04/2021 3557 £885.96 21/05/2021 3594 £65.94 03/09/2021 3648 £209.69 07/11/2021 3692 £390.82 29/11/2021 3692P £295.15 17/01/2022 3692P £298.15 08/02/2022 3761 £302.25 01/03/2022 3781 £213.62 30/03/2022 3798 £302.11 21/04/2022 3818 £214.92 20/05/2022 3649/3851/3829 £371.67 28/07/2022 3899 £190.58 08/09/2022 3925 £229.68 17/11/2022 3971 £296.57 12/12/2022 3999 £54.65 £4,321.76
Cyfieithu poster, agenda Tachwedd y 24ain a chofnodion Tachwedd y 3ydd / Translation of poster, November 24th agenda and November 3rd minutes. Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 2747 gair / words	07/12/2021	3720	£197.78	
Cyfieithu cyfres o ddogfennau / Translation of a series of documents. minutes 24th November Artisan Market Poster 13/12 e-mail text minutes 8th December Llanfairfechan posting schedule Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 6790 gair / words	22/12/2021	3733	£488.88	
Cyfieithu Agenda Ionawr y 12fed / Translation of January 12th Agenda. Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 420 gair / words	07/01/2022	3757	£30.24	
Cyfieithu poster Marchnad Chwefror ac Agenda Chwefror yr 2il / Translation Februaru Market poster and February the 2nd Agenda Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 506 gair / words	01/02/2022	3771	£36.43	
Cyfieithu dogfen Wythnos Gymunedol, testun e-bost 23/05 a Chofnodion Mai'r 11eg / Translation of Community Week document, 23/05 e-mail text and May 11th Minutes. Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 3051 gair / words	13/06/2022	3859	£219.67	
Cyfieithu cofnodion Mehefin yr 22ain / Translation of June 22nd Minutes. Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 2027 gair / words	05/07/2022	3891	£68.25	
Cyfieithu deunydd Marchnata / Translation of Marketing material Cyfieithu @ lleiafswm ffi + TAW / Translation @ minimum fee + VAT	09/08/2022	3923	£15.00	
Cyfieithu Cofnodion Gorffennaf y 27ain a Poster Sesiwn Cynllunio / Translation of July 27th Minutes and Planning Session Poster. Cyfieithu @ £60.00 y fil o eiriau + TAW / Translation @ £60.00 per thousand words + VAT 3,190 gair / words	09/08/2022	3925	£229.68	
			£1,379.75	
			3925 paid £229.68	
			Total Owed and will be paid 23/02/2022	£1,150.07

Cynigwyd gan y Cyng P Andow Eiliwyd gan y Cyng P Vangberg Yn Unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

25. Trafod materion cynllunio

0/50419 Y Warws, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL33 0AA

Dydy'r adeilad ddim yn un cofrestredig ac o leiaf fod yr adeilad wedi'i arbed. Mae hyn yn datrys y broblem ynghylch mynediad ac felly ni chofnodwyd unrhyw bryderon.
Penderfynwyd derbyn a nodi

26. Derbyn gohebiaeth

- Derbyniwyd llythyr am y meinciau coffa – bu pryderon ynghylch y nifer o feinciau sydd wedi'u cytuno arnyn nhw ar y promenâd. Mae'r Cyngor Tref wedi mynd i'r afael â'r broblem hon ac fe fyddan nhw'n meddu ar beth rheolaeth ynghylch y mater o hyn ymlaen. Y cynllun ydy ymateb i'r llythyr mewn ffordd mor sensitif â phosibl.
- Y gofynion ar gyfer adroddiad Bioamrywiaeth y Cyngor Tref – mae hyn yn ofyniad cyfreithiol erbyn hyn a bu i'r Clerc hysbysu'r cyngor bod angen inni gyflwyno datganiad bioamrywiaeth. Clerc i lunio drafft a'i

gyflwyno yn y cyfarfod nesaf er mwyn ei drafod a gwneud penderfyniad yn ei gylch.
Penderfynwyd derbyn a nodi

27. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

- 1 Cyfarfod am y Llyfrgell Gymunedol 13/02/2023 – Mae'r pwyllgor yn cydweithio'n agos gyda CBS Conwy i barhau i gynnal y gwasanaeth yn Llanfairfechan. Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol am y gwasanaeth yn y dyfodol ac mae'n bwysig rhoi camau gweithredu ar waith er mwyn ei amddiffyn. Gallwn fwrw golwg ar gydweithio gyda gwirfoddolwyr neu sicrhau cyllid gan y Cyngor Tref. Ni wnaeth y preswilydd brynu adeilad y llyfrgell ac mae'n debyg na fyddai hyn yn digwydd yn y dyfodol ychwaith. Mynegwyd pryderon bod angen mynd i'r afael â'r eiddo uwchben gan fod problemau lleithder sy'n peri pryder.
- 2 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 15/02/2023 – Mae'r cyflwyniad power point yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r wybodaeth. Mae yna neges ddilysol – mae Conwy yn dal yn aros am gam 2 y broses ymgeisio, ond mae disgwyl y bydd ar waith maes o law. Y rhybudd ydy y dylai rhan helaeth y cais fod yn reffeniw a bydd yn rhaid inni ganolbwyntio ar ran reffeniw y prosiect. Mae angen inni fwrw iddi i lunio'r ceisiadau oherwydd bydd y dyddiadau cau yn fyr. Mae'n rhaid cwblhau'r prosiect erbyn Rhagfyr 2024 ac felly gallai recriwtio beri pryder.
 Byddai'r math yma o waith yn fwy priodol fel gwaith contract gyda chlybiau neu fusnesau lleol.
- 3 Darganfod Llanfairfechan – mae'r calendrau wedi gwerthu'n dda felly does dim angen gofyn am grant Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddwn yn gwerthu'r calendrau sy'n weddill am bris gostyngol; dydy'r cardiau post ddim yn gwerthu'n dda felly mae'n bosibl y byddai sticeri car yn fwy poblogaidd. Byddwn yn mynd ati i rannu'r gweithgareddau cymunedol gyda Darganfod Llanfairfechan ar gyfer y calendr ar-lein ar y wefan. Mae'n ddarn sylweddol o waith ar gyfer y Clerc yn ogystal ag aelod pwyllgor Darganfod Llanfairfechan. Byddwn yn cyflawni cymaint o waith â phosibl ond byddai swyddog marchnata yn gyfrifol am y gwaith fel arfer.

Penderfynwyd derbyn a nodi

28. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

Ymholiad ynghylch Warden Cŵn. Mae wedi'i e-bostio at Gyngor Conwy, ond soniwyd y byddai'n anodd iawn rhoi rhaglen warden Cyngor Tref ar waith. Does dim warden cŵn yng Nghonwy ac mae disgwyl mwy o doriadau yn y maes gorfodaeth felly ni chaiff hyn ei gyflawni. Bu inni drafod arwyddion, ac rydym wrthi'n ymchwilio hyn. Mae'r syniad o benodi warden yn anodd dros ben gan fod cyflwyno dirwyon yn broses gyfreithiol. Nid oes modd bwrw iddi gyda hyn yn rhwydd.

Arwydd troad U ger pen dwyreiniol y promenâd. Mae arwydd newydd wedi'i osod ac mae pryderon y bydd yn arwain cerbydau sylweddol lawr cefn ffordd Glan y Môr. Clerc i e-bostio Conwy i ofyn am fanylion a mynegi pryderon.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50yh